**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR PENFRO**

# Datganiad Polisi ar Recriwtio Pobl â Chofnod Troseddol

**Egwyddorion Cyffredinol**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i drin ei staff, staff posibl neu ddefnyddwyr ei wasanaethau yn deg, ac yn ymroi i hyrwyddo cyfle cyfartal. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r datganiad hwn ar recriwtio pobl sydd ag euogfarnau troseddol ar gael i ymgeiswyr am swyddi.

Mae'r Awdurdod yn croesawu ceisiadau am swyddi gwag gan ystod eang o ymgeiswyr ac yn gwneud penderfyniadau ar benodi swyddi ar sail teilyngdod (sgiliau, profiad, cymwysterau hanfodol, dawn).

Dim ond gofyn a wnawn i unigolyn roi manylion am euogfarnau a rhybuddion y mae gan ein sefydliad hawl gyfreithiol i wybod amdanynt.

Fel sefydliad sy'n asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer swyddi sydd wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) ac yn defnyddio gwiriadau cofnod troseddol a brosesir drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), mae'r Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer DBS.

Rydym yn ymgymryd i beidio â gwahaniaethu yn annheg yn erbyn unrhyw ymgeisydd sydd â chofnod troseddol neu unrhyw ymgeisydd sy'n destun gwiriad cofnod troseddol ar sail euogfarn neu wybodaeth arall a ddatgelir.

**Gweithio gyda phlant ac oedolion sy’n agored i niwed**

1. Gweithdrefnau DBS

Gofynnir i ymgeiswyr am swyddi sy'n cynnwys gwaith gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed am eu hanes cofnod troseddol llawn (gweler nodyn 1) lle gellir yn gyfreithiol ofyn am dystysgrif DBS fanylach, (sydd hefyd yn cynnwys gwiriad o restri’r DBS o bobl waharddedig os yw'r gwaith yn weithgaredd a reoleiddir) (gweler nodyn 2).

Lle gofynnir yn gyfreithiol am dystysgrif DBS (lle mae'r swydd yn un sydd wedi'i chynnwys yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 fel y'i diwygiwyd) a lle bo'n briodol Rheoliadau Deddf yr Heddlu (fel y'u diwygiwyd), gall yr Awdurdod ond gofyn i unigolyn am euogfarnau a rhybuddion nad ydynt wedi'u diogelu (yn ddarostyngedig i hidlo).

Ym mhob achos arall, lle na allwn ofyn am wiriad DBS manylach, byddwn yn gofyn i ymgeisydd ddatgan unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu (gweler nodyn 3).

Byddwn ond yn cynnal gwiriad DBS ar ôl i asesiad risg trylwyr ddangos bod gwiriad yn gymesur ac yn berthnasol i'r swydd dan sylw, a phan fodlonir amodau cymhwyster gwirio.

Bydd pob ymgeisydd y gofynnir iddo gael gwiriad DBS yn cael gwybod am fodolaeth Cod Ymarfer DBS; bydd copi o’r Cod ar gael dim ond gwneud cais.

2. Gweithdrefnau gwneud cais am swydd

Ar gyfer y swyddi hynny lle clustnodir bod angen cael gwiriad cofnod troseddol, bydd manylion y swydd a gyhoeddir (hysbyseb swydd a/neu ddisgrifiad swydd/manyleb person) yn cynnwys datganiad y bydd angen i ymgeisydd gael gwiriad DBS ar y lefel briodol os caiff gynnig y swydd.

Anogir ymgeiswyr i ddatgelu gwybodaeth berthnasol yn gynnar yn y broses ymgeisio/cyfweld. Dylid anfon y wybodaeth hon gyda cheisiadau am swydd, mewn amlen ar wahân sy’n dwyn y gair ‘cyfrinachol’. Agorir yr amlen hon os dewisir yr ymgeisydd ar y rhestr fer am gyfweliad, a dim ond y rhai sydd angen gweld y wybodaeth fel rhan o'r broses recriwtio fydd yn cael gweld cynnwys yr amlen. Gallai methu â datgelu gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd dan sylw arwain at dynnu cynnig cyflogaeth yn ôl.

Yn ystod y cyfweliad, neu mewn trafodaeth ar wahân, byddwn yn sicrhau bod trafodaeth agored ac ystyriol yn digwydd am unrhyw droseddau neu fater arall a allai fod yn berthnasol.

Ymgymerwn i drafod unrhyw fater a ddatgelir yn y dystysgrif DBS gyda'r unigolyn sy'n gwneud cais am y swydd cyn tynnu'n ôl unrhyw gynnig amodol o gyflogaeth.

3. Cymhwysedd staff

Byddwn yn sicrhau bod pob un yn ein sefydliad sy'n rhan o'r broses recriwtio yn gymwys i glustnodi ac asesu pa mor berthnasol yw’r troseddau ac amgylchiadau’r troseddau, ac wedi derbyn cyfarwyddyd a hyfforddiant priodol yn y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â chyflogi cyn-droseddwyr, megis Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974.

**Gweithio mewn rolau eraill**

Ar gyfer y swyddi nad yw’n ofynnol cael gwiriad DBS, bydd yr Awdurdod ond yn gofyn am euogfarnau 'heb eu disbyddu’ (fel y'u diffinnir yn Neddf Adsefydlu Troseddwyr 1974).

Anogir ymgeiswyr i ddatgelu gwybodaeth berthnasol yn gynnar yn y broses ymgeisio/cyfweld. Dylid anfon y wybodaeth hon gyda cheisiadau am swydd, mewn amlen ar wahân sy’n dwyn y gair ‘cyfrinachol’. Agorir yr amlen hon os dewisir yr ymgeisydd ar y rhestr fer am gyfweliad, a dim ond y rhai sydd angen gweld y wybodaeth fel rhan o'r broses recriwtio fydd yn cael gweld cynnwys yr amlen. Gallai

methu â datgelu gwybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd dan sylw arwain at dynnu cynnig cyflogaeth yn ôl.

Yn ystod y cyfweliad, neu mewn trafodaeth ar wahân, byddwn yn sicrhau bod trafodaeth agored ac ystyriol yn digwydd am unrhyw droseddau neu fater arall a allai fod yn berthnasol.

Nodiadau eglurhaol

1. Mae deddfwriaeth yn 2013 yn caniatáu hen a mân rybuddion ac euogfarnau penodol i beidio â chael eu datgelu mwyach; bydd pob rhybuddiad ac euogfarnau am droseddau treisgar a rhywiol difrifol penodol, a throseddau penodol eraill sy'n berthnasol i swyddi sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion agored i niwed, yn parhau i orfod cael eu datgelu. Yn ogystal, bydd pob euogfarn sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar, p'un a yw'r ddedfryd wedi'i gohirio neu beidio, yn parhau i orfod cael ei datgelu, yn ogystal ag euogfarnau lle mae unigolyn â mwy nag un euogfarn wedi'i chofnodi.
2. Mae datgeliad DBS yn cael ei gynnwys gan Orchymyn Eithriadau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 a Rheoliadau Deddf yr Heddlu priodol.
3. Ystyrir bod rhybuddion ac euogfarnau wedi'u 'disbyddu' ar ôl cyfnod penodol o amser (sy'n amrywio yn ôl y ddedfryd a dderbyniwyd neu'r penderfyniad a wnaed yn yr achos dan sylw). Unwaith y bydd rhybuddiad neu euogfarn wedi'i ddisbyddu, caiff unigolyn ei drin fel un sydd wedi'i adsefydlu o ran y drosedd honno ac nid oes raid iddo ddatgan hynny ar gyfer y mwyafrif o ddibenion, er dylid cael golwg ar y nodiadau ar ddatgeliad DBS.

Gall rheolwyr, neu unigolion sydd â chofnod troseddol, ddod o hyd i gymorth a chyfarwyddyd yma http://www.unlock.org.uk/